**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 (Cychwyn Rhif 1) 2026**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Trafnidiaeth Lleol Integredig i'w osod gerbron Senedd Cymru ochr yn ochr â Gorchymyn Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 (Cychwyn Rhif 1) 2026. Mae hyn yn unol ag Adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Bysiau (Cymru) 2026 (Cychwyn Rhif 1) 2026.

**Mark Hooper AS**
**Y Dirprwy Weinidog dros Drafnidiaeth**

**24 Mehefin 2026**

1. **Diben a throsolwg**

1.1. Mae'r Gorchymyn Cychwyn hwn yn dod â'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 ("y Ddeddf") i rym ar 30 Mehefin 2026:

a) Adran 5(1)(a), (b), (2) a (3) (gwasanaethau bysiau lleol: dyletswyddau craidd);
b) Adran 6 (llunio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru);
c) Adran 7 (adolygu a diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru);
d) Adran 8 (darpariaeth bellach ynghylch diwygiadau i Gynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru);
e) Adran 9 (diwygio Cynllun Rhwydwaith Bysiau Cymru: dyletswyddau awdurdod lleol).
f) Adran 34 (darparu gwasanaethau bysiau gan awdurdodau lleol: dileu'r cyfyngiad).

1.2. Dyma'r gorchymyn cychwyn cyntaf a wneir i gychwyn darpariaethau yn y Ddeddf, yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol.

2. **Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth**

2.1. Dim.

3. **Y cefndir deddfwriaethol**

3.1. Gwneir y gorchymyn cychwyn hwn o dan adran 48(3) o'r Ddeddf. Er nad yw'r gorchymyn cychwyn hwn yn dilyn un o weithdrefnau'r Senedd, mae'n dal i fod yn ofynnol iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru o dan adran 37F o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

4. **Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

4.1. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y gorchymyn cychwyn hwn. Mae hyn yn unol â'r esemptiad yn adran 3.2 o god ymarfer Gweinidogion Cymru o ran cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.